Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Pontrhydfendigaid
**Pontrhydfendigaid**
**Ystrad Meurig**
**Ceredigion**
**SY25 6BL**

**Dyddiad yr arolygiad:  Mawrth 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Pontrhydfendigaid yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal gyfagos yng Ngheredigion. Cymraeg yw prif iaith yr ysgol. Mae 73 o ddisgyblion ar y gofrestr rhwng 4 ac 11 oed, wedi eu trefnu mewn pedwar dosbarth.

Daw 16% o'r disgyblion o gartrefi ble y siaredir y Gymraeg ar yr aelwyd. Nid oes un plentyn yn dod o gefndir ethnig lleiafrifol. Er bod yr ardal dan anfantais gymdeithasol ac economaidd, dim ond 10% o'r disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

Mae gan 22% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig. Mae hyn ychydig yn uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Nid oes un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers 2005, ac ers tua blwyddyn, wedi gofalu am ddwy ysgol gyfagos yn ychwanegol i'w swydd ym Mhontrhydfendigaid. Cafodd yr ysgol ei harolygiad diwethaf yn 2006.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2011-2012 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Pontrhydfendigaid yw £3,404. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Ceredigion yw £8,706 a'r isafswm yw £2,987. Ysgol Gynradd Pontrhydfendigaid yw'r 44ain allan o'r 60 ysgol gynradd yng Ngheredigion o ran cyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

### Perfformiad presennol

Mae agweddau rhagorol i'r ysgol sy'n cynnwys:

- y defnydd o grantiau i hybu addysg y disgyblion; a'r
- partneriaethau gyda busnesau lleol, sy'n hyrwyddo yn effeithiol ymwybyddiaeth y disgyblion o fentergarwch.

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos cynnydd ac yn cyflawni'n dda iawn;
- mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau dysgu ac mae ganddynt agweddau positif at ddysgu;
- mae bron pob un disgybl yn ymddwyn yn gyfrifol;
- mae'r profiadau dysgu yn cael eu cynllunio'n dda;
- mae'r holl ddisgyblion yn cael eu cefnogi'n dda ac yn elwa o gwricwlwm sy'n eang, cytbwys a diddorol;
- mae'r addysgu'n effeithiol;
- mae'r ysgol yn cael ei harwain a'i rheoli'n arbennig o dda; ac
- mae'r staff yn cyd-weithio'n effeithiol ac mae pob un yn cyfrannu'n bwrpasol i lwyddiant yr ysgol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r arweinyddiaeth, gyda chefnogaeth y staff, yn darparu cyfeiriad clir i waith yr ysgol;
- dengys newidiadau a datblygiadau dros amser fod gan yr ysgol gofnod da o wella er lles y plant;
- mae'r arweinyddiaeth yn gosod targedau clir a chynllun gwella blynyddol pwrpasol ar gyfer datblygu'r ysgol;
- mae gan yr holl staff agwedd gadarnhaol a gweithredol tuag at wella eu medrau proffesiynol;
- mae partneriaethau cadarn yn cael eu defnyddio'n rheolaidd i wella safonau'r disgyblion;
- mae arian yn cael ei ddefnyddio'n bwrpasol iawn; ac
- mae'r amgylchedd dysgu'n ysgogol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i’r ysgol i:

A1 sicrhau gwell cysondeb yn y prosesau asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol;

A2 datblygu ymhellach rôl y staff ym mhrosesau rheolaethol yr ysgol; a

A3 chreu cyfleoedd i’r staff i rannu yr arferion gorau yn yr addysgu.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd a chyflawniad sydd naill ai'n dda neu'n dda iawn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol wrth ystyried eu mannau cychwyn.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn briodol i athrawon ac oedolion eraill. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob un disgybl yn hyderus wrth siarad a thrafod ac maent yn medru ymestyn eu syniadau a'u barn yn effeithiol i gefnogi'u safbwyntiau.

Yn y Cyfnod Sylfaen, gall bron pob un disgybl wrando a darllen storïau adnabyddus. Mae'r mwyafrif yn ail-ddweud prif nodweddion storiau'n gywir ac yn ystyrlon iawn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio strategaethau darllen yn effeithiol i ddarllen geiriau anghyfarwydd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen eu gwaith yn hyderus iawn ar draws y cwricwlwm. Maent yn defnyddio medrau ymchwilio cadarn i ymholi a darganfod gwybodaeth briodol yn llyfrau ac wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob disgybl yn defnyddio ystod eang o ysgrifennu a sawl math o ddulliau i fynegi eu syniadau a'u teimladau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithredu eu dealltwriaeth o ramadeg, sillafu ac atalnodi yn effeithiol iawn wrth ysgrifennu ar draws y cwricwlwm a'r ardaloedd dysgu. Mae eu gwaith yn gyson daclus ac wedi eu gyflwyno'n raenus.

Mae medrau mathemategol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda ac maent yn eu defnyddio ym mhynciau eraill ar draws y cwricwlwm yn effeithiol. Mae medrau technoleg gwybodaeth bron pob un disgybl wedi sefydlu'n gadarn iawn ac maent yn hyderus wrth arbed eu gwaith cyfredol a darganfod gwaith blaenorol. Mae bron pob un disgybl yn gwneud cynnydd da ac yn defnyddio'r iaith yn effeithiol iawn ar lafar trwy gydol y dydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau ehangach defnyddiol iawn fel mentergarwch. Maent yn ddysgwyr annibynnol llwyddiannus wrth iddynt arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn effeithiol a gyda phwrpas penodol.

Wrth gymharu'r ysgol gyda meincnodau cenedlaethol, mae tueddiad i berfformiadau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 i fod yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae tueddiad i berfformiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 i fod yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg ym mhob pwnc ac wrth gyfuno'r pynciau, heblaw am y Gymraeg sydd yn gyson yn yr hanner isaf. Mae'r canlyniadau, wrth gymharu â'r teulu o ysgolion tebyg, yr awdurdod lleol a Chymru yn dilyn patrwm tebyg iawn i'r dystiolaeth meincnodol ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol.

Mae’r canran o ddisgyblion sy’n cyrraedd lefelau uwch na’r disgwyl yn dda iawn mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill y teulu, awdurdod lleol a Chymru gyfan. Nid oes patrymau amlwg o wahaniaethau rhwng perfformiad bechgyn o’u cymharu â’r merched am fod niferoedd yn fach. Mae’r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da. Annheg fyddai cymharu cyraeddiadau disgyblion sydd â’r hawl i ginio am ddim gyda rheini nad oes â’r hawl, gan fod y niferoedd yn rhy fechan i sefydlu patrwm clir.

**Lles: Da**

Mae bron pob un disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a ffitrwydd ac maent yn cyflawni’n dda yn eu datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae bron pob un yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod sut y gallant gadw’n iach trwy fwyta’n synhwyrol a gwella eu ffitrwydd trwy wersi a gweithgareddau ymarfer corff.

Mae bron pob un disgybl yn ddysgwyr bodlon sy’n mwynhau bywyd yr ysgol. Maent yn mwynhau eu gwersi ac maent yn lleisio barnau synhwyrol am yr hyn y maent yn eu dysgu. Mae eu hymddygiad yn dda ac mae bron pob un o’r disgyblion yn gwrtais ac yn ymateb yn barchus i oedolion a chyfoedion. Mae’r system o fentora cyfoedion yn effeithiol ac mae’r plant hŷn yn dangos gofal a pharch tuag at ddisgyblion iau. Gall bron pob un disgybl drafod mentergarwch yn dda iawn ac maent yn deall yr angen i ofalu am yr amgylchedd a’r byd amrywiol a chynaliadwy y maent yn byw ynddo.

Mae’r gyfradd bresenoldeb yn dda, sef tua 95%, ac yn uwch na’r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Tros y pedair blynedd diwethaf, mae presenoldeb wedi amrywio o’r chwarter uchaf i’r chwarter isaf o’i gymharu ag ysgolion tebyg. Mae bron pob disgybl yn brydlon.

Mae aelodau o gyngor yr ysgol a’r pwyllgor eco yn cymryd rhan weithredol trwy wneud penderfyniadau synhwyrol am fywyd yr ysgol. Mae gwaith allgyrsiol y disgyblion a’u hymroddiad i’r gymuned leol yn dda iawn.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn cynllunio profiadau dysgu llwyddiannus ac ysgogol sy’n ennyn diddordeb y disgyblion ar draws yr ysgol. Mae cynllunio’r cwricwlwm yn dda. Mae manylder y cynllunio yn sicrhau her briodol a chyson i’r disgyblion.

Mae’r ddarpariaeth i sicrhau bod y disgyblion yn caffael medrau llythrennedd, rhifedd, cyfathrebu a thechnoleg gwybodaeth yn drwyadl iawn. Mae’r ddarpariaeth i ddatblygu medrau dysgu annibynnol yn gadarn ac yn amlygu’i hun yn dda ym mywyd dyddiol yr ysgol.

Mae darpariaeth effeithiol iawn ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion o’r angen i ofalu am yr amgylchedd a’r byd amrywiol a chynaliadwy y maent yn byw ynddo. Defnyddir cyd-addoli yn briodol i amlygu materion sy’n ymwneud â thegwch ac anghydraddoldeb.

Caiff y ddarpariaeth ar gyfer datblygu’r iaith Gymraeg a’r dimensiwn Cymreig ei ddatblygu’n gadarn iawn ar hyd yr ysgol. Mae’r grwpiau ymyrraeth a sefydlwyd yn dechrau cael yr effaith briodol ar safonau.

**Addysgu: Da**

Ym mron pob un wers, mae’r athrawon yn defnyddio ystod eang o adnoddau ysgogol i gefnogi dysgu’r disgyblion yn effeithiol. Mae perthynas da iawn rhwng yr oedolion a’r disgyblion ym mhob dosbarth a gwna’r ysgol ddefnydd da iawn o fedrau ac arbenigedd yr holl staff. Ceir awyrgylch bwrpasol tuag at waith ar draws yr ysgol.

Mae dealltwriaeth gadarn o’r cwricwlwm gan yr holl staff ac maent yn cwestiynu disgyblion yn dda i ymestyn eu gwybodaeth ar bynciau a chysyniadau priodol. Mae’r disgyblion yn elwa o’r ffordd mae’r athrawon yn siarad yn sensitif a chanmoladwy â nhw am ansawdd eu gwaith. Cyniga’r athrawon awgrymiadau ac anogaeth lafar da i’r disgyblion ar sut i wella’u gwaith.

Yn rhan fwyaf o wersi, mae’r athrawon yn cyflwyno’r gwaith yn dda ac mae’r dysgu yn symud ymlaen ar gyflymdra heriol. Mewn ychydig iawn o wersi, nid yw’r addysgu yn ysgogi’r disgyblion i weithio ar lefelau sy’n briodol i’w gallu.

Mae pob un o’r staff addysgu, gan gynnwys y staff cymorth, yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad yn effeithiol.

Mae agweddau da i weld ym marcio gwaith ar y cyfan a cheir enghreifftiau o sylwadau sydd yn dangos yn glir y ffordd ymlaen i ddisgyblion i wella’u gwaith. Mae’r broses o osod targedau defnyddiol ar gyfer disgyblion unigol yn effeithiol drwy’r ysgol.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar waith ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, mae ‘na ormod o anghysondebau yn y gweithdrefnau o ddosbarth i ddosbarth. Mae meini prawf llwyddiant yn cael y sylw priodol ac yn dechrau ffocysu’r disgyblion ar sut i ddatblygu’u gwaith. Mae’r system o dracio cynnydd plant, lefelu a chymedroli gwaith disgyblion dros amser yn adnabod lefelau cyrhaeddiad y disgyblion yn gywir.

Mae adroddiadau i rieni yn dda iawn ac yn bodloni’r gofynion statudol. Mae’r holl rieni a gofalwyr yn teimlo’u bod yn cael gwybodaeth gynhwysfawr am gynnydd eu plant ar ddiwedd y flwyddyn ysgol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus iawn. Darpara’r ysgol wybodaeth gynhwysfawr i ddisgyblion a rhieni am fywyd yr ysgol sy’n cynnwys gwefan ddefnyddiol dros ben, cylchlythyrau rheolaidd, prosbectws ac adroddiad blynyddol y llywodraethwyr.

Mae trefniadau sefydlu ar gyfer disgyblion newydd a disgyblion ag anghenion arbennig yn glir ac mae trefniadau da yn eu lle i drosglwyddo’r disgyblion hŷn i addysg uwchradd. Caiff y ddarpariaeth drefnus ar gyfer lles a manteision byw’n iach ei hyrwyddo’n effeithiol iawn. Mae mentrau cenedlaethol fel y rhai ar gynhwysiad a chydraddoldeb yn cael eu hannog a’u cefnogi’n dda iawn.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol ar gyfer diogelu a gweithdrefnau ar gyfer diogelu.

Mae systemau effeithiol ar gyfer adnabod disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol gyda'u gwaith. Ceir darpariaeth gynlluniedig ar gyfer pob un o'r disgyblion hyn. Mae'r cymorth yn cael ei gydlynu'n effeithiol ac mae cysylltiadau da gydag asiantaethau allanol arbenigol. Caiff rhieni a gofalwyr eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plant ac fe gaiff y cynlluniau addysg unigol eu harfarnu a'u diweddaru'n rheolaidd. Mae'r gweithdrefnau effeithiol ar adrodd ar anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol yn bodloni gofynion statudol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn sicrhau cyfle cyfartal ar gyfer pob disgybl ac mae'n gymuned gynhwysol iawn. Caiff pob disgybl eu cynnwys yn rheolaidd ym mywyd a gwaith dyddiol yr ysgol. Mae hyn yn arfer dda iawn ac mae'r agwedd bositif hon yn annog y disgyblion i ystyried a gwerthfawrogi eu cefndiroedd amrywiol. Mae'r cwricwlwm yn hygyrch i bawb, beth bynnag fo'u rhyw, eu hil neu'u crefydd ac mae'r ysgol yn bodloni ei dyletswyddau statudol.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r adeilad a'r tir yn effeithiol iawn, yn enwedig y tu allan, ac maent yn cael eu cynnal yn dda. Mae'r staff cymorth yn gweithio dan arweiniad yn effeithiol gydag athrawon dosbarth. Maent yn llwyddo i gyflwyno gweithgareddau priodol yn effeithiol ar draws yr ysgol. Mae ansawdd yr adnoddau'n dda iawn a chânt eu defnyddio â phwrpas i gefnogi anghenion dysgu disgyblion.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn dda iawn. Mae'r staff yn ei chefnogi'n dda ac mae hyn yn elfen allweddol o lwyddiant yr ysgol. Mae'r pennaeth wedi sefydlu gweithdrefnau a phrosesau rheolaethol effeithiol iawn. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel ynglŷn â'r athrawon a'r disgyblion. Mae hyn yn cael dylanwad cadarnhaol ar safonau disgyblion ar draws yr ysgol. Gwella'r ysgol trwy godi safonau disgyblion ymhellach yw prif ffocws y cynllunio strategol. Mae'r cynlluniau yn ymateb i briodoleddau cenedlaethol a lleol fel y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn cynnal rheoli perfformiad ac yn gweithredu'r gofyniad cyfreithiol i fonitro ac arfarnu ansawdd yr addysgu ym mhob dosbarth yn ffurfiol fel rhan o'r broses hon.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol yn enwedig wrth ddefnyddio cyllideb a grantiau priodol i ddatblygu'r ysgol. Maent yn derbyn gwybodaeth ar berfformiad yr ysgol gan y pennaeth ac yn ymweld â dosbarthiadau fel rhan o'u rôl o fonitro safonau. Mae gan yr aelodau ymwybyddiaeth dda o berfformiad cyfredol yr ysgol ac maent yn herio a chwestiynu perfformiad yr ysgol yn gydwybodol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae’r broses o gynllunio ar gyfer gwella yn effeithiol a gweithredol iawn. Mae’r broses o hunan arfarnu wedi’i sefydlu ers hir amser, gyda’r prif ffocws ar godi safonau disgyblion. Mae’r staff cyfan yn ymwybodol o bwrpas ac effaith hunan arfarnu effeithiol, fodd bynnag, nid yw eu rolau ym mhrosesau rheolaethol yr ysgol wedi datblygu’n llwyr.

Mae’r llywodraethwyr yn rhan allweddol o’r broses drwy herio’r ysgol fel ffrindiau beirniadol. Mae’r rheolwyr ac arweinwyr yn datblygu dealltwriaeth o gryfderau a gwendidau’r ysgol drwy’r strategaethau hunan arfarnu effeithlon.

Mae’r cynllun gwella ysgol, sy’n deillio’n uniongyrchol o’r hunan werthusiad, yn cael effaith gadarnhaol ar wella’r ysgol. Mae ffocws y cynllun yn targedu meysydd penodol ac mae’r defnydd o ddata wrth dracio cynnydd disgyblion yn herio’r ysgol i godi safonau ymhellach.

Mae’r staff wedi cael eu cynnwys mewn ystod o gyfleoedd hyfforddi a datblygu effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio mewn partneriaethau gyda’r ddwy ysgol arall sydd dan ofalaeth y pennaeth a phartneriaid eraill, sy’n cynnwys y gymuned ehangach a’r awdurdod lleol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaethau gyda rhieni, y gymuned ac eraill yn arbennig o dda. Mae’r partneriaethau gyda busnesau lleol yn rhagorol wrth godi ymwybyddiaeth y plant o fentergarwch. Mae’r cysylltiadau trosglwyddo rhwng y cylch meithrin a’r ysgol yn effeithiol. Mae’r cynlluniau trosglwyddo yn galluogi disgyblion hŷn i gael eu paratoi’n briodol ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Mae ymweliadau â’r gymuned ac ymwelwyr o’r gymuned yn gwneud cyfraniad cadarnhaol iawn at gyfoethogi profiadau disgyblion. Caiff dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill ei datblygu’n dda iawn trwy astudio cysylltiadau rhyngwladol, gwledydd eraill ac elusennau priodol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae nifer priodol o athrawon yn yr ysgol gyda’r cymwysterau addas ar gyfer eu swyddi. Rhoir cefnogaeth effeithiol iawn i’r athrawon gan gymorthyddion dosbarth sydd hefyd yn cefnogi’r disgyblion yn dda wrth eu gwaith.

Mae amrediad da iawn o adnoddau yn yr ysgol tu fewn a thu allan ac maent yn cael eu rheoli yn dda. Mae ansawdd a defnydd yr adeilad yn dda. Dosrannir arian yn briodol ar gyfer blaenoriaethau’r ysgol o fewn y cynllun gwella ysgol ac mae’r defnydd o grantiau i hybu addysg y disgyblion yn rhagorol. Mae cynlluniau gwario penodol yn eu lle ar gyfer yr arian wrth gefn. Mae’r cynllunio strategol yn canolbwyntio yn briodol ar gynnal y safonau da a hyrwyddo gwelliant. Mae’r ysgol yn rhoi gwerth da am arian o ran deilliannau disgyblion, darpariaeth ac arweinyddiaeth.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd a chyflawniad da iawn wrth ystyried eu mannau cychwyn.

Mae tueddiadau ym mherfformiad disgyblion saith oed sy’n cyrraedd y dangosydd pwnc craidd, sef, lefel 2 neu’n uwch mewn cyfuniad o’r pynciau craidd, yn dueddol o fod yn gyson uchel dros gyfnod o dair blynedd. Mae’n dueddol i gwympo yn y chwarter uchaf mewn cymhariaeth ag ysgolion sydd â chanran tebyg o ran cinio am ddim.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae’r ysgol yn tueddu i fod yn y cyntaf neu’r ail chwarter ym mhob pwnc ac wrth gyfuno’r pynciau, heblaw am y Gymraeg sydd yn gyson yn y trydydd chwarter. Mae’r canlyniadau hyn yn debyg mewn cymhariaeth â’r teulu o ysgolion tebyg, yr awdurdod lleol a Chymru gyfan yn y dangosydd pwnc craidd a hefyd yn y pynciau craidd yn unigol.

Mae data’r ysgol yn dangos bod canlyniadau grwpiau penodol o ddisgyblion fel hwyr ddyfodiaid yn dda ar y cyfan. Yn ychwanegol, drwy archwilio gwaith a llyfrau’r disgyblion, mae cyfatebiaeth cadarn rhwng y canlyniadau a’r safonau. Mae’r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y mwy abl a thalentog, yn gwneud cynnydd da.

Mae’r canran o ddisgyblion sy’n cyrraedd lefelau uwch na’r disgwyl yn dda iawn mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill y teulu, awdurdod lleol a Chymru gyfan. Nid oes patrymau amlwg o wahaniaethau rhwng perfformiad bechgyn o’u cymharu â’r merched am fod niferoedd yn fach. Mae’r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da. Annheg fyddai cymharu cyraeddiadau disgyblion sydd â’r hawl i ginio am ddim gyda rheini nad oes â’r hawl, gan fod y niferoedd yn rhy fechan i sefydlu patrwm clir.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Ymatebodd 44 o rieni i'r holiadur.

Mae pawb o'r farn bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol.

Mae bron pob un yn teimlo'n esmwyth wrth gysylltu â'r ysgol, yn dweud bod eu plant yn hoffi'r ysgol a bod disgwyliadau'r staff yn pwysleisio gweithio'n galed. Yn ychwanegol, mae bron pob un yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol, bod yr ysgol yn hybu aeddfedrwydd ac ysgwyddo cyfrifoldebau, bod yr ysgol yn rhoi cymorth i'w plant i ymgartrefu'n dda wrth ddechrau'r ysgol, bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda a bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach.

Mae'r rhan fwyaf o rieni yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion ac yn teimlo bod yr addysgu'n dda. Mae'r rhan fwyaf yn meddwl bod gwaith cartref yn adeiladu ar waith y dosbarth, bod disgyblion yn ymddwyn yn dda, bod cymorth ychwanegol priodol ar gael i'w plant, bod eu plant yn barod i symud ymlaen i'w hysgol nesaf a bod amrywiaeth dda o weithgareddau, teithiau ac ymweliadau ar gael.

Hefyd, mae'r rhan fwyaf yn dweud bod gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn ar gael, bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da a bod y staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Ymatebodd 32 o ddisgyblion i'r holiadur.

Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent o'r farn bod digon o gyfleoedd am ymarfer corff, bod yr athrawon a'r oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydynt yn gweld y gwaith yn anodd.

Mae bron pob un o'r farn bod digon o adnoddau ganddynt, bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach a bod ymddygiad yn dda yn ystod amser chwarae a dros cinio.

Mae'r rhan fwyaf yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio, eu bod nhw'n gwneud yn dda, eu bod nhw'n gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn gofidio a bod gwaith cartref yn helpu'u gwaith ysgol.

Llawer sydd o'r farn bod disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda a galluogi iddynt fwrw ymlaen â'u gwaith.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Nick Jones | Arolygydd Cofnodol |
| David Kenneth Davies | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Richard Carbis | Arolygydd Cymheiriaid |
| Joyce George | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i’r ysgol ddarparu copïau o’r adroddiad i holl rieni’r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai’r ysgol anfon copi o’r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae’r adroddiad data i’w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â’r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae’r term ‘Derbyn’ (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy’n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw’r grŵp o fyfyrwyr sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.  Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion.  Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.